

Mae'r poster canlynol wedi ei cwblhau ar gyfer rhan or modiwl Dysgwr, Ysgolion a chymunedau: Ble ydw l'n addysgu? Trwy cwblhau'r modiwl byddfa yn datblygu fy dealltwriaeth o'r sgiliau hanfodol am natur y gymuned lleol ac amgylchedd yr ysgol.

Y dysgwr

Mae fy ysgol leoliad yn lle cyfeillgar le mae'r holl ddisgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n hapus a ddiogel yna. *‘Mae angen i ni adnabod ein plant yn dda iawn, a’u trin yn barchus er mwyn creu effaith bositif ar eu hunanwerth a’u hagwedd tuag at ddysgu’ (polisi dysgu ac addysgu fy ysgol lleoliad)* Dywedodd Froebel; *‘Children thrive when they are emotionally secure, joyful and in close relationships with others’.* (Tovey, 2017, tud. 2) Mae sgiliau llythrennedd yn dechrau pam mae'r plentyn yn ifanc gyda rhieni neu ofalwyr yn darllen, canu, chwarae a siarad gyda phlant, mae hyn neud gwahaniaeth mawr yn enwedig i blant sydd yn byw mewn tlodi. *‘Mae’n hanfodol bod pob oedolyn ym mywyd plentyn yn deall, trwy gymryd amser i siarad neu i wrando ar blant, eu bod yn cyfrannu at ddatblygiad cynnar eu hiaith.’* (Barod I Ddarllen, 2015, tud. 23) Er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr mae gan bob disgybl llyfyr darllen sydd yn mynd adref pob nos ac yn dychwleid i'r ysgol y bore wedyn. Gofynnir i'r rhieni darllen gyda'u plentyn/plant pob nos am tua 10 munud, mae'r amser byr yma yn gwneud gwahaniaeth mawr yn ddatblygiad ei phlentyn/plant. Mae'r ysgol yn gofyn i rieni arwyddo'r tudalennau sydd wedi eu darllen yn y llyfr cofnodion.

‘Mae profiadau plentynod yn allweddol wrth lywio ein dyfodol, ac maent yn hollbwysig er mwyn mynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn. Yn anffodus, erbyn iddynt gyrraedd tair oed, rydym yn gwybod bod plant sy’n dod o gefndiroedd difreintiedig yn gallu bod cymaint â blwyddyn y tu ôl i’w cyfoedion.’ (Drakeford, 2019) Mae plentyn sydd yn gallu darllen yn gallu creu marciau/ysgrifennu. Mae llythrennedd yn rhan fawr o bob gwers yn yr ysgol boed siarad, ysgrifennu neu ddarllen. Hefyd mae ganddynt lyfrau gwaith catref, mae gwaith catref yn cael ei osod ar ddiwedd pob wythnos.

‘Our national mission does not stop at the school gates. Our reform journey, focused on raising standards and reducing the attainment gap, is further strengthened by improvements to student support and the post-compulsory education system.’ (llywodraeth cymru)

Yn y dosbarth mae'r plant wedi ei wahanu i mewn i grwpiau gallu o fewn y grwpiau hyn maent yn gweithio mewn grwpiau neu barau a mae'r plant yn dangos parch at eraill ac yn rhannu syniadau da. Mae llais y plentyn yn gryf yn yr ysgol, maent yn defnyddio'r cyngor ysgol, pwyllgor eco iach ar lysgenhadon yn effeithiol iawn.



Yr ysgol

Mae fy ysgol lleoliad yn ysgol gymunedol, wledig yng Ngheredigion sydd yn gwasanaethu ardal fawr. ‘Mae 124 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol gyda 13.1% o'r disgyblion yn cael prydiau ysgol am ddim’ (Fy ysgol leol). Fe wnaeth 6 ysgol fach leol cau er mwyn creu'r ysgol yma. Mae yn ysgol Cymraeg ond yn neud yn siŵr bod y disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg ar Saesneg cyn iddynt adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Saesneg yw'r iaith catref i 72% o'r disgyblion. Mae'r disgyblion wedi ei rhannu i 5 dosbarth, allan o'r 5 dosbarth mae 3 o'r dosbarthiadau yn gymysg oedran. Mae adeilad yr ysgol yn lliwgar a deniadol gyda digol o le dysgu tu fewn sydd yn cynnwys llyfrgell, ystafell gyfrifiadurol, ardall gwaith creadigol ar neuadd fawr. Mae gan yr ysgol llawer o arddangosfeydd sydd yn dangos gwaith y disgyblion. Tu allan mae gan blant y Cyfnod Sylfaen ardal ‘pentre’ bach’ sydd yn creu amgylchedd dysgu uchel. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i gadw dysgu yn effeithiol oherwydd maent yn deal ni wedi pob plentyn dim yn dysgu'r un ffordd. Mae rhai o'r dysgwyr yn weledol, rhai yn glywedol a rhai yn ginesthetig. Mae'r ysgol yn cynnig clwb brecwast i'w disgyblion sydd yn rhedeg pob dydd o 8yb. Mae'r ysgol yn annog rhieni rhoi brecwast i'w phlant cyn cyrraedd yr ysgol ond os nid yw hyn yn bosib mae'r ysgol yn cynnig brecwast iachus i'r plant er enghraifft ffrwythau, grawnfwyd, tost a sudd. Mae clwb ar ôl ysgol yn cael eu rhedeg yn ddyddiol, mae clwb wedi eu cofrestru gyda'r AGGCC. Mae'r plant sydd yn mynychu ar glwb yn cael eu casglu oddi'r dosbarthiadau ar ddiwedd y dydd ac yn mynd l neuadd yr ysgol neu'r ystafell gymunedol. Ar ddechrau'r clwb maent yn cael rhywbeth bach i'w fwyta. Mae'r staff yn gosod gweithgareddau ond nid yw plant yn cael ei orfodi i'w wneud. Mae'r staff yn deall bod y plant eisiau ymlacio ar ôl ddiwrnod caled yn yr ysgol felly mha yna hefyd dewis o weithgareddau annibynnol. Mae'r clwb ar agor i blant tair blynedd a drosto.

Cymdeithas

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar lle mae pawb yn cael sylw a chwarae teg. Mae ganddynt baratodau defnyddiol sydd yn cefnogi lles emosiynol a chorfforol y disgyblion wrth roi cyfleoedd o safon uchel i'r disgyblion cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol. Mae'r ysgol yn defnyddio asiantaethau allanol yn effeithiol, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd a swyddogion lles addysg. *‘Mae defnydd effeiyhiol o asiantaethau allanol, megis gwasanaethau cymdeithasol aciechyd, a swyddogion lles addysg, sy’n sicrhau cymorth cadarn l ddisgyblion, staff a rhieni fel ei gilydd.’* (ESTYN, Mai 2014)

Mae'r ysgol yn deall bod plentyn yn unigryw felly mae'r broses ddysgu yn amrywio. Maent yn hybu partneriaeth gyda:

- Rhieni: i gymryd rhan weithredol yn natblygiad ei phlentyn/plant
- Llywodraethwyr: rannu gwybodaeth am safonau'r ysgol yn gyson, mae hyn yn effeithio ar benderfyniadau a all arwain at welliant
- Y gymuned: ar fwyn darparu profiadau addysgiadol amrywiol fel ymweliadau, siaradwyr, eisteddfodau, cyngherddau ac yn y blaen
- Awdurdod Addysg: mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i fynychu cyrsiau/cynadleddau er mwyn cadw safon uchel o ddysgu ac addysgu

Mae amrwyaeth mawr o swyddi gyda rhieni'r disgyblion. Mae sosio-economaidd yn dylanwaid'n fawr ar y disgybl:

‘The impact of economic and environmental conditions such as low income and poor housing in a child’s early years can affect many aspects of life including health, educational achievement and future economic status.’ (Public Health Wales Observatory, 2011, tud. 29) Mae'r Heddlu yn ymweld ar ysgol bob tymor i siarad gyda'r plant am nifer o wahanol bwyntiau er enghraifft Addysg am Sylweddau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Diogelwch Personol a Diogelwch y We, mae'r sesiynau yma maen ffordd dda i'r plant magu hyder gyda'r Heddlu. Mae'r Nyrs ysgol hefyd yn rhan fawr o'r calendr ysgol. Maent yn ymweld ar ysgol i neud ‘health check’ sef pwyso, mesur taldra a phroffion llygaid a chlyw. Maen amser da i rieni neu staff yr ysgol rhannu pryderon am blentyn. *‘O fewn diwrnod ysgol croesewir pobl o'r gymuned l rannu o’u profiadau a’r plant. Hybir rhieni l helpu yn yr ysgol, a sicrhair fod yr henoed yn cael ymweliad oddi wrthym ar adegau pwrpasol o fewn y flwyddyn ysgol neu achlysur dathlu penblwydd arbennig.’* (Polisi fy ysgol lleoliad (2006).

Mae'r ysgol yn cynnal sawl sesiwn cymdeithasol yn ystod y flwyddyn er enghraifft cwrdd diolchgarwch a gwasanaethau yn y capel lleol ac maent wedi codi arian ar gyfer achosion da gyda'i ffrindiau o Hafan Deg (catref yr henoed lleol). Mae'r cyngor ysgol yn rhannu syniadau a threfnu digwyddiadau elusenol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wefan ‘Twitter’ er mwyn dangos beth mae yn ei wneud yn y gymuned leol. Pam roedd yr ysgol yn cael ei adeiladu roedd rhaid iddynt greu ystafell gymunedol ar gyfer y gymuned leol, heddiw mae'r ystafell yn cael ei ddefnyddio gan lawer o wahanol glybiau o'r ardal ar ôl oriau ysgol. Mae yn cael ei ddefnyddio gan y Clwb Ffermwyr Ifanc, Yr Henoed a Merched y Wawr yn wythnosol. Wrth ochor yr ysgol mae ganddynt ardd sydd yn cael ei rannu rhwng yr ysgol ar gymuned leol, mae croeso mawr i gymuned ei ddefnyddio tu allan i oriau ysgol.

Dywedodd Malaguzzi; *‘This principle, that "education is relationship," puts great priority on establishing a learning and caring community composed of educators, families, and children, based on sharing of perspectives and resources, and with expectations of continuity and long-term relationship.’* (Carolyn Pope Edwards, Willa Cather Professor (1995) t.1) Rwy'n cytuno gyda Malaguzzi, wrth gwblhau'r poster yma rwyf wedi dysgu bod angen perthynas da rhwng y disgybl, ysgol ar gymuned er mwyn codi hyder y plant i weithion dda a chyrraedd ei thargedau. Wrth edrych i mewn i'r disgybl, ysgol ar gymuned rwyf wedi dysgu bod y tri pheth wedi cysylltu gyda'i gilydd er mwyn creu ysgol o safon uchel sydd â dysgwyr hapus.



(Lluniau o Trydar yr ysgol lleoliad)

Achub y Plant ar ran Ymgyrch Darllena.Datblyga. (2015) Barod i Ddarllen
Carolyn Pope Edwards, Willa Cather Professor (1995)
<https://digitalcommons.unl.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1014&context=famconfacpub>
(Darllenwyd 23 Ionawr 2020).

Drakeford M, Prif Weinidog Cymru. (2019) Lansio dull gweithredu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar
ESTYN, Mai 2014 <https://www.estyn.llyw.cymru/chwilio?search=arfer+da> (Darllenwyd: 13 Ionawr 2020)

Llwyodraeth Cymru <http://learning.gov.wales/docs/learning/publications/140211-effective-practice-in-tackling-poverty-and-disadvantage-in-schools-en.pdf> (Darllenwyd 27 Ionawr 2020)

Llwyodraeth Cymru <http://mylocalschool.gov.wales/> (Darllenwyd 10 Ionawr 2020)

Polisi Dysgu ac Addysgu Ysgol y Dderi. (2010)

Polisi Yr Ysgol a'r Gymuned Ysgol y Dderi (2006)

Public Health Wales Observatory (2011) Socio-economic and Environmental Conditions
www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/pubhobservatoryprojdocs.nsf/61c1e930f9121fd080256f2a00493... (Darllenwyd 22 Ionawr 2020)

Tovey H. (2017) A Froebelion Approach Outdoor Play and Exploration. Ar gael yn:
<https://www.froebel.org.uk/app/download/15184829/FT+Play+Pamphlet.pdf> (Darllenwyd: 15 Ionawr 2020)

https://twitter.com/ysgol_y_dderi?lang=en (Darllenwyd 26 Ionawr)